

Beth os byddwch yn dod i gysylltiad â chebl o dan y ddaear?

Os ydych yn eistedd mewn cloddiwr mecanyddol pan gaiff cebl ei ddifrodi,

- **NEIDIWCH YN GLIR ODDI ARNO**, yn hytrach na chamu oddi ar y cerbyd.
- Neidiwch mor bell i ffwrdd ag y gallwch, ceisiwch lanio ar eich traed, yna **RHEDWCH** o leiaf 10 metr i ffwrdd neu arhoswch yn y cerbyd nes bydd y llinell wedi'i hynysu.

Ym mhob achos...

- **Dywedwch wrth unrhyw un arall i gadw draw**, a gwnewch yn siŵr bod pawb yn gadael. **Cofiwch** gallai cebl wedi'i ddifrodi fod yn fyw o hyd neu gallai gael ei ailwefru.
- **Peidiwch â chyffwrdd** ag unrhyw beiriannau, cyfarpar neu offer sy'n cyffwrdd â chebl sydd wedi'i ddifrodi.
- **Ffoniwch rif ffôn mewn argyfwng SP Energy Networks** a rhowch eich lleoliad yn fanwl a'ch rhif ffôn cyswllt.

BYDDWCH YN YMWBODOL, CADWCH DRAW



PEIDIWCH BYTH â chyffwrdd â cheblau wedi'u difrodi.

Dylech dybio bod ceblau pŵer bob amser yn FYW.

Dylid defnyddio'r daflen hon ar y cyd â Nodyn Cyfarwyddyd HS(G)47 yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE), 'Avoiding Danger from Underground Services'.

Cysylltu â ni

Materion Rhwydwaith Cyffredinol yn cynnwys cyngor diogelwch
0845 273 4444

Mewn argyfwng yn unig, ffoniwch y rhif priodol ar gyfer eich ardal:

Canolbarth Lloegr a De'r Alban
0845 272 7999

Swydd Gaer, Glannau Mersi a Gogledd Cymru
0845 272 2424

Ewch i'n gwefan ar Gloddio'n fwy diogel:
www.spenergynetworks.com/safety/safereexcavations



Rhagor o wybodaeth

Mae cyngor cynhwysfawr ar gael oddi wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) drwy www.hsebooks.co.uk neu drwy ffonio **01787 881 165**

Dylid defnyddio'r daflen hon ar y cyd â Nodyn Cyfarwyddyd HS(G)47 yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE), 'Avoiding Danger from Underground Services'.

Mae'r Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni yn llunio cyfres o daflenni sydd ar gael yn www.energynetworks.org



SP ENERGY NETWORKS

Mae diogelwch yn bwysig...



...wrth weithio ger ceblau o dan y ddaear

Mae'r daflen hon wedi'i hanelu at unrhyw un sy'n cloddio neu'n torri drwy'r ddaear. Ei bwriad yw rhoi gwybodaeth i helpu pobl i fod yn ddiogel.

Dros y deng mlynedd diwethaf cofnodwyd **1,000 o anafiadau** yn y DU o ganlyniad i gyswllt â cheblau trydan o dan y ddaear. Roedd dros un rhan o dair o'r digwyddiadau hyn ar safleoedd adeiladu neu ddymchwel ac roedd y gweddill ar briffyrdd cyhoeddus, llwybrau cerdded, neu mewn eiddo domestig a gerddi.

Gall difrod ddeillio o waith cloddio neu dorri drwy'r ddaear a gall achosi ffrwydrad sy'n arwain at losgiadau difrifol a hyd yn oed farwolaeth.

Edrychwch ar y cynlluniau a byddwch yn ofalus

- Cynhaliwch asesiad risg yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd HS(G)47 HSE, 'Avoiding Danger from Underground Services'.
- Sicrhewch fod gennych gynlluniau cyfredol o'r gwasanaethau tanddaearol yn yr ardal. Bydd y wybodaeth hon ar gael oddi wrth SP Energy Networks ar gais.
- Dylech gynnwys rhif ffôn mewn argyfwng SP Energy Networks ar eich map o'r fferm/cynlluniau o'r safle ac ar eich rhestr o gysylltiadau ffôn. Dylech annog gweithwyr i'w gadw yn ei ffonau symudol.
- Dylech sganio'r ardal lle rydych yn bwriadu cloddio gan ddefnyddio Cyfarpar Osgoi Ceblau a Genny bob amser cyn dechrau gweithio.
- Os oes gwaith brys yn cael ei wneud ac nad yw'r cynlluniau ar gael ar unwaith, cloddwch fel pe bai ceblau BYW wedi'u claddu yn y cyffiniau.
- Dylech fod yn ymwybodol y gallai gweithredoedd trydydd partïon fod wedi newid dyfnder neu safle ceblau ers iddynt gael eu gosod.
- Efallai na fydd ceblau cysylltiadau gwasanaeth yn cael eu dangos ar y cynlluniau. Edrychwch o amgylch am arwyddion o wasanaethau posibl, e.e. heyrn stryd.
- Nodwch safleoedd ceblau gan ddefnyddio paent ffordd sy'n gwrthsefyll dŵr neu farciwr parhaol arall.


Ewch i: www.spenergynetworks.com/safety/safereexcavations

Rydym yn rhoi gwybodaeth a chyngor ar ddim ar arferion gwaith diogel a'r rhagofalon i'w cymryd wrth weithio ger ceblau o dan y ddaear.

Wrth gloddio tyllau prawf defnyddiwch Cyfarpar Osgoi Ceblau a rhaw.

Dylech sicrhau bod cofnodion ceblau cyfredol ar y safle.

PEIDIWCH BYTH â defnyddio caib, fforch, trosol na chyfarpar pŵer.



Cloddwch dyllau prawf a byddwch yn ofalus

- Dylech sicrhau bod aelodau o staff wedi'u hyfforddi'n llawn i gloddio a defnyddio offer yn briodol ac yn ddiogel.
- Gwnewch dyllau prawf â llaw ar hyd llwybr dangosol y cebl i gadarnhau safle'r gwasanaethau. Gwnewch gymaint o dyllau ag sydd eu hangen â llaw, yn enwedig os oes pibellau plastig na all Cyfarpar Osgoi Ceblau eu canfod bob amser.
- Defnyddiwch raw, ond PEIDIWCH BYTH â defnyddio caib, fforch, trosol na chyfarpar pŵer.
- Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, cadwch olwg am dâp, cwndidau neu orchuddion ceblau sy'n nodi bod gwasanaethau tanddaearol.
- Peidiwch â defnyddio ceblau agored fel stepiau neu afaelion llaw.
- Peidiwch â gweithredu tarw dur, crafwr, tyrchwr na chloddwr oni fyddwch yn fodlon bod yr holl wasanaethau a gladdwyd wedi cael eu nodi yn yr ardal waith.
- Rhochwch ddeunydd ôl-lenwi mân o amgylch y gwasanaethau. Gorchuddiwch y cebl â phridd heb gerrig ynddo neu â llwch carreg ac ailosodwch unrhyw deils, cwndidau a thâp sy'n nodi lleoliad ceblau.

Pwyntiau allweddol cyffredinol

- Caiff trydan ei gyflenwi i dai, siopau, ffatrioedd, goleuadau stryd a heyrn stryd eraill drwy geblau trydan o dan y ddaear neu linellau pŵer uwchben.
- Nid yw ceblau o dan y ddaear yn rhedeg mewn llinellau syth. Maent yn hyblyg ac yn newid cyfeiriad a dyfnder.
- Dylid trin ceblau cyflenwi sy'n gysylltiedig ag adeiladau gwag fel pe baent yn FYW nes y bydd SP Energy Networks yn nodi'n wahanol.
- Ni ddangosir pob cebl ar gynlluniau.
- Os bydd cebl wedi'i gladdu mewn concriid peidiwch â cheisio ei dorri'n rhydd. Cysylltwch ag SP Energy Networks i sicrhau bod y cebl wedi'i ddadwefru.
- Dylech fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio ceibiau, fforchau, trosolion, pinnau neu unrhyw gyfarpar pigfain arall i ryddhau lympiâu o gerrig neu i dorri tir cywasgedig.
- Peidiwch byth â thafu caib neu gyfarpar miniog i'r ddaear.
- Mae Nodyn Cyfarwyddyd HS (G) 47 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 'Avoiding Danger from Underground Services' yn rhoi cyngor manwl ardderchog ar sut i sicrhau nad yw gwasanaethau tanddaearol yn beryglus i chi ac argymhellir yn gryf eich bod yn ei ddarllen cyn dechrau gweithio ar y safle.